

Canolfan Dystiolaeth

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Adroddiad Blynyddol

2023 -2024

www.ResearchWalesEvidenceCentre.co.uk
@TystiolaethCym

Cynnwys

Rhagair	3
Dewis ein Cwestiynau Ymchwil	4
Synthesis Tystiolaeth Cyflym ac Astudiaethau Achos Partneriaid Cydweithio	5
Ymchwil Sylfaenol ac Astudiaeth Achos Partner Cydweithio	8
Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu	9
Paratoi Gwybodaeth	10

Uchafbwyntiau

2023 / 2024

Wedi'i lansio gan Eluned Morgan AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Lansiwyd y Ganolfan Dystiolaeth ac wnaethom ddechrau gweithio gyda'n pum Partner Cydweithio.

Croesawu'r Grŵp Partneriaeth Cyhoeddus (PPG)
Mae'r cyhoedd yn cymryd rhan ym mhob agwedd o'r ymchwil rydym ni'n ei chynnal.

Galwad gyntaf am gwestiynau (SPPI Rownd 1)
Fe wnaethom weithio gydag arweinydd y GIG a Gofal Cymdeithasol Cymru a Llywodraeth Cymru i nodi'r dystiolaeth bwysicaf sydd ei hangen i lywio polisi ac ymarfer.

Cyflwynwyd 105 o gwestiynau a mabwysiadwyd 19 ar y rhaglen waith.

Grŵp Cyngori Strategol

Cyfarfod personol

Mae'r grŵp yn dod ag arbenigedd o bob rhan o'r sector ynghyd i ddarparu cyngor ac arweiniad ar brosesau'r Ganolfan Dystiolaeth.

Ail alwad am gwestiynau (SPPI Rownd 2)

Cyflwynwyd 40 o gwestiynau a mabwysiadu 10 ar y rhaglen waith.

Rhagair



Hoffwn eich croesawu i'r Adroddiad Blynyddol cyntaf hwn ar gyfer Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Mae'r adroddiad yn disgrifio'r gwaith **trylwyr, perthnasol, ymatebol a chyflym** mae'r Ganolfan Dystiolaeth yn ei wneud i ddiwallu **anghenion tystiolaeth** eang **Llywodraeth Cymru, Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) a Gofal Cymdeithasol Cymru**, a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Rydym ni'n adeiladu ar waddol Canolfan Dystiolaeth Cymru COVID-19, a oedd yn arweinydd byd-eang yn y maes tystiolaeth ar gyfer ymgymryd â'r gwaith synthesis tystiolaeth (adolygu) a chysylltu hyn â phiblinell o ymchwil sylfaenol, gyda phob un yn llywio'r agenda polisi sy'n symud yn gyflym a chynllunio a gwerthuso cyflenwi gwasanaethau cysylltiedig. Mae egwyddorion ymchwil darbodus, sy'n berthnasol i bolisi, yr un mor bwysig wrth i ni fynd i'r afael â'r pwysau parhaus a newidiol yn y GIG a gofal cymdeithasol.

Mae'r adroddiad yn dangos peth o'r gwaith allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn cynnwys y gwaith i lywio ail-ddylunio darpariaeth gwasanaethau deintyddol yng Nghymru sy'n diwallu anghenion a disgwyliadau cleifion. Mae gwaith ar ordedra ymhlith plant, her iechyd cyhoeddus gynyddol, a phwnc polisi a gweithredu strategol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae gwaith arall yn cynnwys cefnogi lles yn y gweithle ar draws gweithgorau amrywiol, mynediad at

wasanaethau iechyd meddwl i bobl o leiafrifoedd ethnig, lleihau allgáu digidol i ddefnyddwyr gofal cymdeithasol, costau, buddion a gwerth gwasanaethau gofal lliniarol, gwella diogelwch 'triniaethau arbennig' – tatwio, colur, aciwbigo ac eraill. Mae prosiectau yn y dyfodol agos yn cynnwys gwerthuso timau ymateb cymunedol 'Safe@Home' ar gyfer pobl sydd fel arall yn debygol o gael eu derbyn i'r ysbyty, deall safbwyntiau cleifion ar gymorth ariannol yn lle presgripsiynau cynnyrch heb glwten ar gyfer clefyd seliag, ac ymyriadau rhoi'r gorau i ysmegu ar gyfer pobl â chyflyrau iechyd meddwl.

Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn mynd i'r afael ag ystod eang o faterion pwysig i bobl yng Nghymru, gan geisio gwella iechyd a phrofiadau'r cyhoedd o ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal. Mae ein holl waith yn ar gael yn gyhoeddus ac yn seiliedig ar bartneriaeth gyhoeddus gref a modelau cyflawni effaith. Rydym ni'n ddiolchgar iawn i'n cyllidwyr yn Llywodraeth Cymru am alluogi i'r gwaith hwn ddigwydd, ac i'n partneriaid ymchwil cydweithredol ac aelodau partneriaid cyhoeddus am sicrhau ein bod ni'n cyflawni ar gyfer pobl Cymru.

Yr Athro Adrian Edwards, Cyfarwyddwr Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

www.ResearchWalesEvidenceCentre.co.uk
[@TystiolaethCym](https://twitter.com/TystiolaethCym)

Dewis ein Cwestiynau Ymchwil

Mae ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol yn hanfodol er mwyn sefydlu **rhaglen waith berthnasol sy'n mynd i'r afael â'r anghenion polisi ac ymarfer pwysicaf ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru**, sydd fwyaf tebygol o sicrhau newid effeithiol ac arwain at fanteision i boblogaeth Cymru.

Rydym ni wedi datblygu **rhwydwaith critigol** o llunwyr/cynghorwyr polisi iechyd a gofal cymdeithasol, clinigol ac arweinwyr ymarfer i ymgynghori gyda nhw ar dystiolaeth flaenoriaeth uchel.


Mae'r grŵp yn **fwriadol eang**, gan gynnwys y rhai sy'n gwneud penderfyniadau sy'n cwmpasu pob agwedd ar iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym ni'n estyn allan yn ffurfiol i'r rhwydwaith hwn bob chwe mis, ond mae'n agored i geisiadau brys yn ôl yr angen.

Mae gennym ni un **broses blaenoriaethu aml-lwyfan** gan gynnwys ymgynghori: o fewn Uwch dîm y Ganolfan Dystiolaeth, grwpiau ymchwil partner cyd-ymgeiswyr, timau Tystiolaeth Llywodraeth Cymru, ein Grŵp Cynghori Strategol gan gynnwys cyfranwyr cyhoeddus a'n Grŵp Goruchwylio gan gynnwys ein cyllidwyr, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

I gael eich dewis ar ein cwestiynau ymchwil rhaglen waith rhaid iddo fod yn bwysig ac yn berthnasol i bobl Cymru o fewn ein cylch gwaith iechyd a gofal cymdeithasol, gyda llwybr clir i effaith.

Rydym ni hefyd yn ystyried dichonoldeb, gan gynnwys argaeledd data, osgoi dyblygu gyda'n grwpiau ymchwil a gydag ystyried materion cost ac ecwiti.

Mae'r rhaglen waith bresennol wedi cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.



Cwestiynau a gyflwynwyd ac a dderbyniwyd i'r rhaglen waith

Rownd 1

(105 cwestiwn wedi'u cyflwyno)

Ionawr - Ebrill 2023

Rownd 2

(40 cwestiwn wedi'u cyflwyno)

Medi - Tachwedd 2023

Synthesis Tystiolaeth

Ymchwil Sylfaenol

Synthesis Tystiolaeth

Ymchwil Sylfaenol

12

7

8

2



Polisi

9

5

3

1



Clinigol

2

2

3

1



Gofal Cymdeithasol

1

0

1

0



Arall

0

0

1

0

Synthesis Tystiolaeth

Ein dulliau

Edrych ar lenyddiaeth sy'n bodoli eisoes

Mae'r Rhaglen Waith Synthesis Tystiolaeth yn canolbwyntio ar adolygu'r ymchwil bresennol yn gyflym ac yn gadarn i ddarparu atebion i'r cwestiynau a flaenoriaethwyd gan ein grwpiau rhanddeiliaid.

Mae pob adolygiad yn cael ei gynnal gan **Partner Cydweithio** ymroddgar. Mae ymgysylltu cynnar a pharhaus â rhanddeiliaid yn cael ei ddefnyddio i rhoi ffocws i'r cwestiwn a sicrhau bod yr adolygiad yn briodol i anghenion y cyfrandaliwr. Cefnogir hyn gan gyfres o gyfarfodydd rhanddeiliaid.

Proses adolygu fesul cam

Mae'r cam cychwynnol (~ 2 wythnos) yn cynnwys cyfarfod rhanddeiliaid rhagarweiniol a chwiliad rhagarweiniol o adnoddau allweddol ar gyfer adolygiadau presennol. Defnyddir y cam hwn i egluro anghenion y cyfrandaliwr, gwirio nad yw'r cwestiwn ymchwil wedi cael sylw gan grŵp arall, llywio dulliau a dyluniad y cam nesaf, a darparu canfyddiadau interim cyfyngedig i'r rhanddeiliaid. Gellir addasu'r cam hwn hefyd i fynd i'r afael â chwestiynau brys a chynhyrchu **Crynodeb Tystiolaeth Gyflym (RES)** - llyfryddiaeth anodedig gyda chanfyddiadau allweddol.

Mae'r cam nesaf yn cynnwys datblygu'r protocol a chynnal yr **Adolygiad Cyflym (RR)** - adolygiad mwy trylwyr a chynhwysfawr (~ 3 mis) o fewn ffrâm amser byr. Mae'r rhain yn

seiliedig ar ddulliau adolygu systematig, ond mae rhannau o'r broses yn symlach neu'n cael eu gadael allan. Cefnogir hyn gan gyfarfodydd rhanddeiliaid canolraddol pellach, yn ôl yr angen. Ar gyfer adolygiadau eang neu gymhleth, mae **Map Tystiolaeth Cyflym (REM)** dros dro - sy'n darparu rhestr o'r ymchwil sydd ar gael - weithiau yn cael ei gynhyrchu i helpu i ganolbwyntio'r adolygiad cyflym dilynol. Gellir gofyn am hyn hefyd fel cynnyrch terfynol.

Pa bynnag gam y daw'r adolygiad i ben yn (RES, REM, RR), cyflwynir y canfyddiadau yn y cyfarfod rhanddeiliaid diwethaf, sy'n cynnwys ffocws ar Baratoi Gwybodaeth (gweler tudalen 11).

Ein dulliau adolygu cyflym

Mae ein hadolygiadau cyflym yn darparu **tystiolaeth ddilys a dibynadwy i rhanddeiliaid fynd i'r afael â phroblemau penderfyniadau sy'n sensitif i amser mewn modd effeithlon o ran adnoddau**. Eu nod yw canfod a chyfod y dystiolaeth sy'n ymwneud â chwestiwn penodol, gan ddefnyddio gweithdrefnau tryloyw ac ailadroddus i leihau gwallau a thuedd. Mae'r dulliau a ddefnyddir i gynnal yr adolygiad yn cael eu hadrodd yn glir.

GWYLIO NAWR

Dyma Ruth yn esbonio'r broses synthesis tystiolaeth a ddefnyddir gan y Ganolfan Dystiolaeth.



Yn y sbotolau

Partneriaid Cydweithio

Ein Partneriaid Cydweithio yw asgwrn cefn y Ganolfan Dystiolaeth.

Mae'r tîm craidd yn cydweithio â phedwar Partner Cydweithio ar draws Cymru i ateb y cwestiynau iechyd a gofal cymdeithasol blaenoriaethol, ac i gyflawni allbynnau sydd wedi llywio penderfyniadau polisi ac ymarfer.

- **Cydweithrediad Synthesis Tystiolaeth Caerdydd (CESC), gan gynnwys [Canolfan Cymru ar gyfer Gofal sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth \(WCEBC\)](#) a'r [Uned Arbenigol Tystiolaeth Adolygu \(SURE\)](#)**
- **Sefydliad Ymchwil Iechyd a Meddygol Bangor (BIHMR), gan gynnwys y [Ganolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau \(CHEME\)](#)**
- **Technoleg Iechyd Cymru (HTW)**
- **Gwasanaeth Tystiolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC)**

Sgiliau

Mae ein partneriaid cydweithredu yn arbenigwyr mewn synthesis tystiolaeth ac economeg iechyd ac mae ganddynt brofiad helaeth mewn gofal iechyd, gofal cymdeithasol ac iechyd y cyhoedd.

Mae gwaith pob Partner Cydweithredu yn cael ei 'amlygu' dros y tudalennau nesaf, gan dynnu sylw at astudiaethau achos maen nhw wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn gyntaf ar draws ein rhaglen waith synthesis tystiolaeth. Am fwy o wybodaeth am eu harbenigedd ewch i'r dudalen [Partner Cydweithio](#) ar ein gwefan.

Allbwn

Mae'r holl allbynnau ymchwil a gynhyrchir gan Ganolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, ynghyd â'n Partneriaid Cydweithio, i'w gweld yn [Llyfrgell Adroddiadau](#) ein gwefan.

"Rydym ni wedi parhau i weithio fel Partner Cydweithio yn y Ganolfan Dystiolaeth drwy gydol 2023/24 gan gynnal adolygiadau tystiolaeth gyflym ar bynciau sy'n amrywio o iechyd y llygaid i ordewdra.

Mae'r Ganolfan Dystiolaeth yn chwarae rhan hanfodol bwysig wrth sicrhau bod gwneuthurwyr polisi iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cael mynediad at yr ymchwil diweddaraf posibl.

Mae'n darparu atebion cyflym i gwestiynau ymchwil ac yn nodi bylchau yn y wybodaeth sydd ei hangen i lunio polisi sy'n mynd i'r afael â blaenoriaethau iechyd a gofal cymdeithasol allweddol.

Rydym ni'n edrych ymlaen at barhau i weithio mewn partneriaeth agos â'r Ganolfan yn y flwyddyn i ddod."

Dr Susan Myles, Cyfarwyddwr Technoleg Iechyd Cymru

Cydweithrediad Synthesis Tystiolaeth Caerdydd

Adolygiad cyflym o risgiau iechyd corfforol sy'n gysylltiedig â thriniaethau arbennig (tatŵio, tyllu corff, aciwbigo, electrolysis).

Gwnaed cais am yr adolygiad gan Gyfarwyddiaeth Iechyd Cyhoeddus Llywodraeth Cymru i lywio'r broses o weithredu Rhan 4: Triniaethau Arbennig Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.



Mae'r Ddeddf yn creu cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer cynnal triniaethau arbennig, sy'n cynnwys tatŵio, tyllu'r corff, aciwbigo ac electrolysis.

Mae triniaethau arbennig yn cynnwys tyllu'r croen, sy'n peri risg o gyflwyno heintiau. Gall safonau hylendid uchel leihau cyfradd yr haint.

Fe wnaeth yr adolygiad grynhoi'r dystiolaeth oedd ar gael ar y risgiau iechyd corfforol sy'n gysylltiedig â thriniaethau arbennig, ac adroddwyd ar ystod eang o ddigwyddiadau andwyol, gan gynnwys heintiau mewn unigolion a oedd wedi cael gweithdrefnau arbennig.

Mae'r canfyddiadau'n llywio 'Triniaethau Arbennig Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru)' ac maen nhw wedi'u cyflwyno i Grŵp Gweithredu Triniaethau Arbennig Llywodraeth Cymru. Mae canfyddiadau a ffeithluniau a gynhyrchir gan y Ganolfan Dystiolaeth hefyd yn cael eu defnyddio ar gyfer gweminar ar gyfer Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol, ac mewn dogfen 'Safonau Heintiau a Rheoli Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Triniaethau Arbennig' wedi'i hanelu at ymarferwyr a swyddogion rheoleiddio. Bydd y canfyddiadau hefyd yn cael eu lledaenu i hyfforddwyd cymhwyster Lefel 2 mewn Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer Ymarferwyr Triniaethau Proffesiynol, a gyflwynir gan y Gymdeithas Frenhinol ar gyfer Iechyd y Cyhoedd.

Gweld yr adroddiad llawn:

<https://researchwalesevidencecentre.co.uk/cy/ThriniaethauArbennig>

Gellir dod o hyd i'r holl ymchwil a gynhyrchwyd gan y Ganolfan Dystiolaeth a CESC, yn y [Llyfrgell Adroddiadau](#) ar ein gwefan.



Gwasanaeth Tystiolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru

Adolygiad cyflym yn archwilio effeithiolrwydd deallusrwydd artifisial ar gyfer diagnosis cancer.

Mae'r defnydd o ddeallusrwydd artifisial wrth wneud diagnosis yn rhan o raglen Llywodraeth Cymru ar gyfer trawsnewid a moderneiddio gofal wedi'i gynllunio a lleihau rhestrau aros yng Nghymru. Gyda buddsoddiad cynyddol yn y defnydd o AI, a'r gyfradd gyflym o ddatblygu modelau AI sydd ar gael y gallai'r GIG yng Nghymru eu defnyddio, mae'n bwysig pennu p'un a yw AI yn effeithiol.



Roedd rhanddeiliaid o Gyfarwyddiaeth y Gwyddorau Iechyd a Llywodraeth Cymru eisiau gwybod pa mor effeithiol y gallai deallusrwydd artifisial fod ar gyfer diagnosis cancer.

Ymddangosodd y dystiolaeth gyffredinol o ran effeithiolrwydd o blaid AI fodd bynnag, mae angen ymchwil bellach i ddeall goblygiadau cost ac effaith diogelwch cleifion yn well. Cyflwynwyd canfyddiadau'r adroddiad hwn i Gomisiwn AI Llywodraeth Cymru ar gyfer

Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyda'r nod o helpu i lywio'r broses o lunio polisiau drwy ddarparu gwerthusiad clir sy'n seiliedig ar dystiolaeth o'r ymchwil bresennol.

Cadarnhaodd rhanddeiliaid:


"Bydd y canfyddiadau'n cyfrannu at nod cyffredinol y grwpiau, sef cynghori'r Prif Swyddog Digidol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol - a thrwyddynt, y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol - wrth nodi'r defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau cyfyngedig i drosoli buddion AI ar draws y sector".

"... bydd y gwaith a wneir gan y tîm yn helpu i lywio llunio polisiau drwy ddarparu gwerthusiad clir, seiliedig ar dystiolaeth ac annibynnol ar yr ymchwil bresennol."

Gweld yr adroddiad llawn:

<https://researchwalesevidencecentre.co.uk/AI/CancerDiagnosis>

Gellir dod o hyd i'r holl ymchwil a gynhyrchwyd gan y Ganolfan Dystiolaeth a PHW, yn y [Llyfrgell Adroddiadau](#) ar ein gwefan.



Technoleg Iechyd Cymru

Mesur iechyd meddwl mewn argyfwng costau byw: adolygiad cyflym.

Awgrymwyd y cwestiwn gan yr Is-adran Gwyddoniaeth, Tystiolaeth a Chyngor (SEA), Llywodraeth Cymru. Y gynulleidfa arfaethedig yw rhanddeiliaid sydd angen mesur canlyniadau iechyd meddwl sy'n ceisio tystiolaeth ar gyfer dulliau ac offer priodol, sy'n berthnasol i'r DU neu sy'n ymwneud â Chymru.

Ers 2021 mae'r DU wedi profi cynnydd sydyn mewn chwyddiant. I nifer, nid yw cyflogau a thaliadau lles wedi cadw i fyny â chostau cynyddol, gan arwain at argyfwng costau byw. Mae tystiolaeth sy'n nodi bod argyfyngau economaidd yn niweidiol i iechyd meddwl y boblogaeth a bod rhai grwpiau'n arbennig o agored i niwed.

Fe wnaeth yr adolygiad ganfod 18 o gyhoeddiadau ac adroddiadau o dystiolaeth ymchwil.

Mae llawer o arolygon ar lefel poblogaeth y DU, yn cynnwys offer mesur iechyd meddwl wedi'u dilysu (e.e. holiaduron byr wedi'u dilysu) a chwestiynau am ddiogelwch ariannol, gan ddarparu data y gellir ei ddefnyddio i archwilio iechyd meddwl y boblogaeth.

Grwpiau bregus - Defnyddiwyd un ar ddeg o'r deuddeg offeryn mesur iechyd meddwl i nodi is-grwpiau poblogaeth yr oedd eu hiechyd meddwl

yn fwyaf tebygol o gael ei effeithio gan argyfwng economaidd. Mae tystiolaeth bod yr offer hyn a'r dulliau a ddisgrifir yn addas ar gyfer mesur iechyd mewn pobl â gwahanol sefyllfaoedd economaidd-gymdeithasol ac ariannol. Nid oedd yn bosibl penderfynu a oedd y dulliau a'r offer yn casglu data gan bobl o grwpiau ethnig lleiafrifol yn effeithiol.

Goblygiadau - Gellir defnyddio arolygon lefel poblogaeth mewn astudiaethau lled-arbrofol i fesur effeithiau menter iechyd cyhoeddus gyda dyddiadau cyflwyno penodol i fynd i'r afael ag effeithiau costau byw.

Dylai adroddiadau ac astudiaethau sy'n defnyddio arolygon lefel poblogaeth neu gofnodion meddygol gyflwyno data ar ethnigrwydd a, lle bo'n bosibl, gynllunio i haenu dadansoddiadau yn ôl ethnigrwydd.

Mae'r adroddiad ar hyn o bryd yn cael ei gyfeirio at Asesiad Effaith Cydraddoldeb drafft Llywodraeth Cymru.

Gweld yr adroddiad llawn:
<https://www.researchwalesevidencecentre.co.uk/cy/mesur-iechyd-meddwl-mewn-argyfwng-costau-byw-adolygiad-cyflym>



Mae'r gwaith hwn bellach wedi'i gyhoeddi mewn Cyfnodolyn Polisi Iechyd.

Gellir dod o hyd i'r holl ymchwil a gynhyrchwyd gan y Ganolfan Dystiolaeth a HTW, yn y [Llyfrgell Adroddiadau](#) ar ein gwefan.



**Technoleg Iechyd Cymru
Health Technology Wales**

Sefydliad Ymchwil Iechyd a Meddygol Bangor Canolfan Economeg a Meddyginiaethau Iechyd

Cost-effeithiolrwydd gwahanol fodelau gwasanaeth gofal lliniarol, gan ganolbwyntio ar ofal diwedd oes: adolygiad cyflym.

Gwnaed cais am y cwestiwn gan y Tim Rhaglen Gofal Lliniarol a Diwedd Oes. Y gynulleidfa arfaethedig yw comisiynwyr gwasanaethau gofal lliniarol a llunwyr polisi.

Mae gofal lliniarol yn ddull rhoi gofal meddygol rhyngddisgyblaethol i optimeiddio ansawdd bywyd (QoL) cleifion a'u teuluoedd sy'n wynebu heriau sy'n gysylltiedig â salwch sy'n peryglu bywyd, p'un a yw'n gorfforol, seicolegol, cymdeithasol neu ysbrydol.

Fe wnaeth y tîm gynhyrchu adolygiad cyflym gyda'r nod o bennu costau a chost-effeithiolrwydd gwahanol fodelau gwasanaeth o ofal lliniarol gan ganolbwyntio ar ofal diwedd oes (EoL).

Canfuwyd dadansoddiadau costau ar gyfer modelau ysbyty, hosbis, gofal lliniarol cartref a chymunedol, yn ogystal â modelau gofal lliniarol sy'n canolbwyntio ar ofal sylfaenol a modelau gofal cymysg.

Yn gyffredinol, gofal lliniarol yn EoL yw'r mwyaf costus, gydag ystod o gostau rhwng £10,000 a £64,000 fesul marwolaeth mewn ysbyty ym mhrisiau 2023. Roedd tystiolaeth cost-effeithiolrwydd yn gymysg.

Dylid gwerthuso llwybrau gofal lliniarol newydd yn economaidd yn y dyfodol



a dylai awduron ystyried pa ddulliau sydd fwyaf priodol i werthuso modelau gofal lliniarol. Blynnyddoedd bywyd traddodiadol wedi'u haddasu o ran ansawdd (QALYs), dulliau economaidd iechyd yw'r cyfrifiad mwyaf priodol ar gyfer poblogaeth EoL gan mai nod gofal lliniarol yw diwallu anghenion pobl â salwch terfynol. Gall ymestyn marwolaeth fod yn anghyson â dewisiadau a dymuniadau cleifion.

Bydd y canfyddiadau'n llywio adroddiad cam 3 i Lywodraeth Cymru ynghylch y model, y strwythur a'r cyllid a'r rhaglen waith ehangach. Cyflwynwyd yr adroddiad a'r ffeithlun i fwrdd y Rhaglen ym mis Mai 2024.

Gweld yr adroddiad llawn:
www.researchwalesevidencecentre.co.uk/palliative-care

Gellir dod o hyd i'r holl ymchwil a gynhyrchwyd gan y Ganolfan Dystiolaeth a CHEME, yn y [Llyfrgell Adroddiadau](#) ar ein gwefan.



Ymchwil Sylfaenol

Cynnal ymchwil newydd

Mae adolygu tystiolaeth ymchwil wedi rhoi atebion i lawer o gwestiynau, ond weithiau mae angen i ni gynnal ymchwil newydd.

Mae gennym ni ddwy brif ffrwd i'r rhaglen waith ymchwil sylfaenol:

- **'Mewnol'** – astudiaethau ansoddol a meintiol sy'n cael eu cynnal gan ein hymchwilyr
- **Prosiectau Gwyddor Data Poblogaeth** – gan weithio gyda'n Partner Cydweithio ym Mhrifysgol Abertawe, rydym ni'n cynnig ystod o gysylltiadau data a phrosiectau cymhleth eraill

Astudiaethau mewnol

Beth mae cyhoedd Cymru yn ei ddeall am wasanaethau deintyddol y GIG, sut maen nhw'n meddwl y gallai edrych, a beth yw eu blaenoriaethau? Astudiaeth ansoddol.

Mae rhaglen ddiwygio deintyddol GIG Cymru (Llywodraeth Cymru, 2020) yn cydnabod nad yw defnyddio Unedau Gweithgarwch Deintyddol (UDA) fel yr unig fesur o berfformiad contract yn hyrwyddo gofal a arweinir gan anghenion, atal sy'n seiliedig ar risg, nac yn gwneud y gorau o'r ystod lawn o sgiliau yn y tîm deintyddol. Mae'r contract interim presennol yng Nghymru yn pwysleisio mynediad cynyddol, gwella darpariaeth gwasanaethau, a galluogi gofal personol trwy anghenion - a dull sy'n seiliedig ar risg, yn hytrach nag UDA yn unig.



Nod yr astudiaeth hon oedd ymchwilio i ganfyddiadau'r cyhoedd yng Nghymru o sut y gellid siapio gwasanaethau deintyddol y GIG (yn gyffredinol ac mewn argyfwng) o fewn y rhaglen ddiwygio deintyddol ac i ddirnad eu blaenoriaethau. Yn benodol, roedd yn ceisio deall dealltwriaeth y cyhoedd o dimau deintyddol a gofal, disgwyliadau ynghylch gwasanaethau a chynlluniau gofal cyd-greu, a strategaethau ar gyfer grymuso cleifion i gymryd rhan mewn hunanofal, gan wella canlyniadau iechyd y geg o bosibl. Er mwyn cyflawni hyn, cynhaliwyd cyfweiliadau a gweithdai gydag unigolion cymwys yn defnyddio'r Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol (GDS) yng Nghymru.

Bydd canlyniadau'r prosiect hwn yn cael eu defnyddio'n uniongyrchol gan y Prif Swyddog Deintyddol i helpu i lywio diwygiadau deintyddol yng Nghymru; yn benodol yn llywio strategaeth gyfathrebu a datblygu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer pobl yng Nghymru.

Gweld yr adroddiad llawn

https://researchwalesevidencecentre.co.uk/cy/_ymchwil-sylfaenol-deintyddol

Dad-feddyginiaethu cynhyrchion heb glwten mewn fferyllfeydd drwy gynllun cerdyn cymhorthdal – archwilio barn ar y cynllun, gan gynnwys effaith ar ansawdd bywyd, goblygiadau economaidd canfyddedig a rhwystrau posibl i'r nifer o bobl sy'n manteisio arno.

Yng Nghymru, mae'r rhai sy'n cael diagnosis o glefyd Seliag (CD) yn gymwys i dderbyn bwyd heb glwten ar bresgripsiynau yn unol â'r canllawiau rhagnodi cenedlaethol.



Yn 2018, cyhoeddodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda adroddiad gwerthuso gwasanaethau ar gynllun peilot, a oedd yn cynnwys defnyddio cardiau cymhorthdal rhagdaledig i ddigolledu unigolion am gostau uwch prynu cynhyrchion heb glwten yn lle presgripsiwn. Yn dilyn canfyddiadau cadarnhaol yr adroddiad hwn, mae'r cynllun cerdyn cymhorthdal hwn bellach wedi'i gyflwyno ar draws gweddill y bwrdd iechyd, sy'n golygu bod unrhyw un yn Hywel Dda, sydd â diagnosis o CD, bellach yn gymwys i gofrestru ar gyfer y cynllun cerdyn.

Nod yr astudiaeth hon yw archwilio effaith y cardiau cymhorthdal rhagdaledig yn lle presgripsiynau ar gyfer cynhyrchion, rhwystrau a hwyluswyr heb glwten i'w derbyn ac

argymhellion i'w cyflwyno'n ehangach. Mae hyn yn cael ei archwilio drwy gyfweiliadau gyda'r rhai yng Nghymru sy'n gymwys i dderbyn, neu'n gyfrifol am gaffael bwyd heb glwten ar gyfer rhywun sydd wedi cael diagnosis o CD. Mae'r cyfranogwyr yn cynnwys unigolion o bob bwrdd iechyd yng Nghymru i archwilio profiadau'r rhai sy'n gallu cael mynediad at y cynllun cardiau ar hyn o bryd, yn ogystal â disgwyliadau'r rhai nad ydynt wedi cael cynnig y cynllun eto.



Bydd canlyniadau'r prosiect hwn yn cael eu defnyddio'n uniongyrchol i helpu i lywio'r broses o weithredu'r cynllun cerdyn ar draws byrddau iechyd eraill. Y gobaith felly yw y bydd y gwaith hwn yn sicrhau bod y cynllun hwn yn cael ei gyflwyno gan ystyried anghenion a safbwyntiau'r unigolion y mae'n effeithio arnynt.

Disgwylir i'r canlyniadau terfynol yn Haf 2024 a bydd adroddiad llawn ar gael yn:

https://researchwalesevidencecentre.co.uk/cy/_ymchwil-sylfaenol-glwten

Partner Cydweithio Ymchwil Sylfaenol - Gwyddor Data Poblogaeth

Mae'r tîm Gwyddor Data Poblogaeth (PDS) ym Mhrifysgol Abertawe yn cynnal ymchwil sy'n arwain y byd gan ddefnyddio'r Banc Data Cyswllt Gwybodaeth Ddiennw Diogel (SAIL) ym maes gwyddor data'r boblogaeth.

Gwerthuso'r fenter Safe@Home

Mae menter 'Safe@Home' Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn wasanaeth ymateb brys integredig amlasiantaeth ac amlbroffesiynol newydd, gyda'r nod o fynd i'r afael â'r bylchau presennol mewn gwasanaethau gofal canolradd. Ei nod yw darparu dewis uniongyrchol a diogel yn lle cludo gan ambiwlans, mynd i unedau brys a derbyniadau i'r ysbyty pan fydd yn ddiogel ac yn briodol gwneud hynny. Bydd y prosiect hwn yn ymchwilio i bwy sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn a byddwn yn edrych ar yr hyn sy'n digwydd iddynt, neu eu canlyniadau. Byddwn hefyd yn archwilio profiadau'r claf o'r fenter hon drwy holiaduron a chyfweliadau.




Gofal Lliniarol

Bydd y prosiect hwn yn ymchwilio i batrymau gofal i bobl yng Nghymru, na fu farw o achosion sydyn, yn ystod eu blwyddyn olaf o fywyd. Bydd rhai o'r bobl hyn yn derbyn gofal arbenigol wedi'i anelu at gleifion sy'n derfynol wael ac sy'n annhebygol o wella - gelwir hyn yn ofal lliniarol. Byddwn yn cymharu pa mor aml maen nhw'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd, fel mynd at y meddyg teulu neu'r ysbyty, ac a ydyn nhw'n cael gofal arbenigol ai peidio. Byddwn hefyd yn cymharu gwahaniaethau yn nifer y gwasanaethau gofal iechyd mae'r cleifion hyn yn eu defnyddio ac yn archwilio a yw rhyngweithio â gwasanaethau gofal iechyd yn lleihau'r angen am ofal brys.



Poen Parhaus

Bydd y prosiect hwn yn nodi pobl yng Nghymru sy'n dioddef o boen parhaus. Mae poen parhaus yn boen hirsefydlog sy'n para y tu hwnt i'r amser adfer arferol neu'n digwydd gyda chyflyrau cronig, fel arthritis. Byddwn yn disgrifio pa mor aml maen nhw'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd, fel mynd at y meddyg teulu neu'r ysbyty. Yn olaf, byddwn yn edrych ar sut y gallai newidiadau i wasanaethau iechyd wella iechyd pobl sy'n byw gyda phoen parhaus. Bydd hyn yn helpu Llywodraeth Cymru a thimau GIG sy'n penderfynu pa fath o wasanaethau fyddai orau i'r cleifion hyn.



Cynnwys y Cyhoedd ac Ymgysylltu

Mae cynnwys y cyhoedd wedi'i ymgorffori yng ngweithgareddau'r Ganolfan Dystiolaeth.

Arweinir y cynlluniau cynnwys y cyhoedd gan Ms Libby Humphris, sy'n aelod o'r cyhoedd ac yn gydymaith ymchwil anrhydeddus ym Mhrifysgol Caerdydd a Dr Denitza Williams, arweinydd academiaidd cynnwys y cyhoedd.

Gan weithio gyda'i gilydd, mae Libby a Deni wedi sefydlu **Grŵp Partneriaeth Cyhoeddus (PPG)** o 10 aelod sy'n cymryd rhan yn y canlynol:

- blaenoriaethu cwestiynau ymchwil mae'r Ganolfan Dystiolaeth yn symud ymlaen â nhw
- mireinio cwestiynau ymchwil
- cynghori ar ddogfennaeth ymchwil, recriwtio, casglu data a chynlluniau dadansoddi
- adroddiad cefnogi / ysgrifennu cyhoeddiad fel cyd-awduron
- ysgrifennu crynodebau lleyg i gyd-fynd ag adroddiadau ymchwil
- cyfarfodydd chwarterol PPG

Mae gan bob cwestiwn Canolfan Dystiolaeth bartner cyhoeddus fel rhan o'r tîm ymchwil.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r PPG hefyd wedi bod yn rhan o ddatblygiad **offeryn log effaith ddrafft ar gyfer dal effaith gyhoeddus ystyrion yn amgylchedd ymchwil cyflym** y Ganolfan Dystiolaeth. Mae'r strategaeth cynnwys y cyhoedd ar gyfer y Ganolfan wedi'i chyflwyno yng nghynhadledd ENGAGE ym mis Mai 2024.



Aelodau cyfredol PPG:

(y rhes gyntaf, o'r chwith i'r dde)

Praveena Pemmasani, Bob Hall, Mel McAulay, Tony Cope, Libby Humphris

(ail res, o'r chwith i'r dde)

Martin Rolph, Olivia Gallen, Rashmi Kumar, Deni Williams

(ddim yn rhan o'r llun)



Nathan Davies, Alexandra Strong, Beti-Jane Ingram, Claire James

Aelodau blaenorol PPG sy'n ymwneud â'r gwaith hwn:

Deb Smith, Sally Anstey

Gwaith y PPG

Ym mlwyddyn gyntaf y Ganolfan Dystiolaeth, mae ein PPG wedi bod yn rhan o'r gweithgareddau canlynol:



“

Mae partneriaid cyhoeddus yn hanfodol i'r athroniaeth o gael pethau'n iawn y tro cyntaf.

Andrew Dickenson, Prif Swyddog Deintyddol

”

“

...nid yn unig mae cynnwys y cyhoedd yn helpu i lunio ymchwil, gall hefyd helpu'r cyfrannwr cyhoeddus. Ers cymryd rhan mewn ymchwil mae fy hunan-barch wedi gwella, rwyf wedi mynd yn llai isel fy ysbryd ac erbyn hyn yn teimlo bod gen i bwrpas eto.

Libby Humphris, Cyd-arweinydd PPG

”

Paratoi Gwybodaeth

Mae **paratoi gwybodaeth (KM)** a **strategaeth effaith** yn sail i'n holl ymchwil a'n nod yw sicrhau bod ein hallbynnau ymchwil ar gael yn eang, a'u bod yn **berthnasol**, **amserol ac yn cael eu defnyddio i lywio penderfyniadau polisi ac ymarfer yng Nghymru.**

Mae ein tîm paratoi gwybodaeth ac effaith ymroddedig yn arwain ar amrywiaeth o weithgareddau, i gefnogi ac olrhain lledaenu a defnyddio ein canfyddiadau ymchwil yn effeithiol o'r camau cynharaf. Ar gyfer y gweithgareddau hyn, rydym ni'n gweithio'n agos gyda'r timau ymchwil, ein rhanddeiliaid a'n haelodau cyhoeddus.

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- **Nodi sut y bydd canfyddiadau'r ymchwil yn cael eu defnyddio a'r effaith bosibl** ar gyfer pob cwestiwn cyn cael eu derbyn i Raglen Waith y Ganolfan Dystiolaeth.
- Datblygu **cyllun paratoi gwybodaeth** pwrpasol ar gyfer pob darn o ymchwil gyda'r rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd.
- Cynhyrchu amrywiaeth o **allbynnau ymchwil sydd ar gael yn gyhoeddus**, gan gynnwys tudalen we ar gyfer pob darn o ymchwil, cyhoeddi'r holl adroddiadau, a chrynodebau gweithredol dwyieithog, crynodebau lleyg a ffeithluniau. Rydym ni'n canolbwyntio ar sicrhau bod canfyddiadau ein hymchwil yn cael eu fformatio a'u bod ar gael yn glir.
- Datblygu **cyllun cyfathrebu** ar gyfer y flwyddyn gyfan sydd i ddod. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau, cylchlythyrau, blogiau a chyfryngau cymdeithasol.
- **Cyfarfodydd paratoi gwybodaeth ac effaith** gyda rhanddeiliaid i gynllunio a chyflwyno paratoi a chyfleu gwybodaeth, ac olrhain ac arddangos effaith yr ymchwil.
- **Cyflwyniadau ar thema a sesiynau briffio tystiolaeth.** Wedi'u cynllunio ynghyd â'n rhanddeiliaid, mae'r sesiynau hyn yn darparu fforwm gwerthfawr ar gyfer trafod a dealltwriaeth ddyfnach o ganfyddiadau ymchwil gan dimau polisi ac ymarfer ac eraill a allai fod â diddordeb yn yr ymchwil. Maen nhw'n gyfle gwych ar gyfer e-rwydweithio a chydweithio yn y dyfodol.
- **Stondinau a chyflwyniadau mewn digwyddiadau a chynadleddau perthnasol**, ynghyd â'n haelodau cyhoeddus.

Sampl
Crynodeb Gweithredol
a Ffeithlun



Cyflwyno yn Fforwm Ysgogi Gwybodaeth y DU 2024, i rannu rhwystrau, dysgu ac arfer gorau

Micaela yn esbonio'r broses o baratoi gwybodaeth a ddefnyddir gan y Ganolfan Dystiolaeth
GWYLIO NAWR

14 Cynllun KM
11 Cyfarfod KM ac Effaith
27 Cyflwyniad a Sesiwn Briffio
2.8K o Ymwelwyr i'r Wefan
12 Cydweithrediad Newydd
6K o Lawrlwythiadau i Adroddiadau Ymchwil
37 Cyfradd Ymgysylltu ar X (cyfartaledd)
726 o bobl sy'n edrych fesul post ar X (cyfartaledd)





Canolfan Dystiolaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Ariannwyd gan Lywodraeth Cymru drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Gweler ein llyfrgell adroddiadau am yr holl adroddiadau wedi'u cwblhau
<https://researchwalesevidencecentre.co.uk/cy/llyfrgell-adroddiadau>



www.ResearchWalesEvidenceCentre.co.uk



healthandcareevidence@cardiff.ac.uk



@TystiolaethCym



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government